

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Bil Addysg a Chynhwysiant
Ariannol (Cymru): Adroddiad
Pwyllgor Cyfnod 1**

Tachwedd 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.senedd.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8505
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

**Bil Addysg a Chynhwysiant
Ariannol (Cymru): Adroddiad
Pwyllgor Cyfnod 1**

Tachwedd 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Ar 22 Ionawr 2014, cytunodd y Cynulliad i newid cylch gwaith y Pwyllgor i gynnwys Addysg Uwch. Bydd y pwnc yn parhau yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor Menter a Busnes hefyd, gyda'r ddau bwyllgor yn ystyried Addysg Uwch o'u safbwyntiau penodol. Enw blaenorol y Pwyllgor oedd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Angela Burns

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin
a De Sir Benfro



Keith Davies

Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



John Griffiths

Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Bethan Jenkins*

Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle

Llafur Cymru
Tor-faen



David Rees

Llafur Cymru
Aberafan



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

* Cafodd y Bil ei gynnig gan Bethan Jenkins AC, ac felly roedd yn absennol o'r cyfarfodydd lle'r oedd y Bil yn cael ei drafod.

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Rebecca Evans

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor	5
Cyflwyniad.....	7
Cefndir.....	7
Telerau'r gwaith craffu	7
Dull y Pwyllgor o weithredu	8
Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth.....	9
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil	9
Egwyddorion cyffredinol.....	9
Yr angen am ddeddfwriaeth - addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol	11
Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol	12
Safbwynt y Pwyllgor	12
Yr angen am ddeddfwriaeth - strategaethau cynhwysiant ariannol.....	14
Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol	15
Safbwynt y Pwyllgor	16
Yr angen am ddeddfwriaeth - cyngor ar reoli arian.....	17
Gwybodaeth am ffynonellau cyngor	17
Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol	17
Safbwynt y Pwyllgor	18
Cyngor i fyfyrwyr.....	18
Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol	19
Safbwynt y Pwyllgor	19
Darpariaethau penodol yn y Bil	20
Addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol.....	20
Safbwynt y Pwyllgor	21
Cyfnod Allweddol 2	21
Safbwynt y Pwyllgor	22
Adroddiadau	22

Safbwynt y Pwyllgor	23
Plant sy'n Derbyn Gofal	23
Safbwynt y Pwyllgor	25
Strategaethau cynhwysiant ariannol.....	25
Safbwynt y Pwyllgor	27
Atodiad A - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	29
Atodiad B - Tystion.....	31

Prif gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor

Ar ddechrau ystyriaeth Cyfnod 1 y Pwyllgor, cytunodd ar ei gylch gorchwyl a oedd yn cynnwys ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil ac a oedd angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil.

Mae'r Pwyllgor wedi bodyn glir drwy gydol ei ystyriaeth ei fod yn cefnogi'r prif amcanion polisi a nodir yn y Bil, sef rhoi'r wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol i bobl Cymru er mwyn iddynt allu rheoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol.

Cafodd y cymorth cyffredinol hwn ei adleisio yn y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor. Fodd bynnag, roedd y dystiolaeth gref a gafwyd yn awgrymu bod cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn y maes hwn; a bod deddfwriaeth eisoes ar waith a fyddai'n sicrhau y gellir cyflawni'r rhan fwyaf o amcanion polisi'r Bil.

Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, daeth y Pwyllgor i'r casgliad nad oes angen deddfwriaeth i gyflawni'r amcanion polisi a nodir yn y Bil. Mae adroddiad y Pwyllgor yn adlewyrchu'r casgliadau hynny.

Fodd bynnag, os aiff y Bil ymlaen i Gyfnod 2, cred y Pwyllgor fod angen meddwl yn galed ynghylch darpariaethau penodol yn y Bil, er mwyn helpu i sicrhau'r ffordd orau y gall y ddeddfwriaeth gyflawni'r amcanion polisi. Felly, mae'r adroddiad yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer hyn, ynghyd ag argymhellion cyffredinol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Casgliadau

Casgliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod lefelau gwael iawn o ran llythrennedd ariannol yng Nghymru, a bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r dystiolaeth gref a gafwyd yn awgrymu bod angen penodol am ddeddfwriaeth i wneud addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol. (Tudalen 13)

Casgliad 2: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y dystiolaeth gref a gafodd yn awgrymu nad oes angen penodol am ddeddfwriaeth ar hyn o bryd i wneud strategaethau cynhwysiant ariannol yn ofyniad statudol. (Tudalen 16)

Casgliad 3: O ystyried y ffaith bod llawer o ffynonellau cyngor ar reoli arian ar gael yn barod, y mae rhai ohonynt yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, cred y Pwyllgor nad yw Adran 12 o'r Bil yn angenrheidiol. (Tudalen 18)

Casgliad 4: O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd nad oes cydberthynas rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, cred y Pwyllgor na ddylid cefnogi'r darpariaethau yn adran 13 o'r Bil. (Tudalen 19))

Casgliad 5: O ystyried y dystiolaeth a gafwyd fod y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd a bod pwerau deddfu cyfredol i ddarparu addysg ariannol i'r rhai sy'n gadael gofal, nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylllo bod angen y darpariaethau yn y Bil. (Tudalen 25)

Argymhellion

Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sicrhau y caiff mesurau eu rhoi ar waith i wella addysg ariannol mewn ysgolion ac i wella cysondeb y ddarpariaeth. (Tudalen 13)

Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog sicrhau bod addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar y cyd ag addysg draws-gwricwlaidd ac nid fel pwnc annibynnol. (Tudalen 21)

Argymhelliad 3: Dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg ariannol yn dechrau ar gyfer disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen. (Tudalen 22)

Argymhelliad 4: Dylai'r trefniadau adrodd fod yn llai aml na'r cylch adrodd blynyddol a gynigir ar hyn o bryd yn y Bil. (Tudalen 23)

Argymhelliad 5: Dylai'r darpariaethau adrodd yn y Bil fod yn fwy rhagnodol a dylai canlyniadau, fel monitro ymddygiadau a sgiliau, gael eu mesur. (Tudalen 23)

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau yn lleol i hwyluso cynhwysiant ariannol, drwy ddiweddarau ei Strategaeth genedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Ariannol. (Tudalen 28)

Argymhelliad 7: Cred y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio i fynd i'r afael â gwaith awdurdodau lleol o hyrwyddo cynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol. (Tudalen 28)

Cyflwyniad

Cefndir

1. Ar 15 Gorffennaf 2014, cyflwynodd Bethan Jenkins AC y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru)¹ ("y Bil") a gwnaeth ddatganiad² yn y Cyfarfod Llawn³ y diwrnod canlynol.
2. Yn ei gyfarfod ar 1 Gorffennaf 2014, cytunodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ("y Pwyllgor") i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 14 Tachwedd 2014.

Telerau'r gwaith craffu

3. Cytunodd y Pwyllgor ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer y gwaith o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:
4. Ystyried:
 - egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol (Cymru) ac a oes angen deddfwriaeth er mwyn cyflawni'r amcanion polisi a nodwyd yn y Bil;
 - prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;
 - unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;
 - goblygiadau ariannol y Bil, fel y'u nodir yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (sef yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sy'n amcangyfrif y costau a'r buddion o roi'r Bil ar waith); a
 - priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ar dudalen 51 o'r Memorandwm Esboniadol).

¹ [Y Bil Addysg a Chynhwysiant Ariannol \(Cymru\)](#)

² [Cofnod y Trafodion, 16 Gorffennaf 2014](#)

³ Cyfarfod llawn o holl Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dull y Pwyllgor o weithredu

5. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddodd randdeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w gweld yn Atodiad A.
6. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan nifer o dystion. Mae'r amserlen ar gyfer y sesiynau tystiolaeth lafar wedi'u hatodi yn Atodiad B/ Mae trawsgriadau llawn o'r sesiynau hyn ar gael ar wefan y Cynulliad yn: www.senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=9333
7. Mae'r adroddiad a ganlyn yn nodi'r casgliadau a'r argymhellion y mae'r Pwyllgor wedi'u llunio yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddaeth i law yn ystod ei waith.
8. Nid yw'r adroddiad hwn yn gwneud sylwadau ar bob adran o'r Bil. Os na cheir unrhyw sylwadau ar adran benodol, gellir tybio bod y Pwyllgor yn fodlon ar y darpariaethau fel y'u drafftwyd yn y Bil.
9. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r gwaith o graffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil.

Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

10. Mae'r Memorandwm Esboniadol⁴ yn nodi:

“Mae'r cymhwysedd deddfwriaethol sy'n galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i wneud Deddf mewn perthynas ag addysg a chynhwysiant ariannol wedi ei gynnwys yn Rhan 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

“Yn benodol, mae pwnc 5 (addysg a hyfforddiant) yn uniongyrchol berthnasol yn ogystal â phwnc 12 (llywodraeth leol) sy'n llywodraethu 'pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol'. Mae Pennawd 15 (lles cymdeithasol) yn llywodraethu 'amddiffyn a llesiant plant' yn ogystal â 'gofalu am blant' a 'phobl sy'n agored i niwed'.”

11. Cafwyd datganiad gan y Llywydd ar 15 Gorffennaf 2014,⁵ a oedd yn dweud, yn ei barn hi, y byddai'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Egwyddorion cyffredinol

12. Prif amcan polisi y Bil yw rhoi'r wybodaeth a'r gallu ariannol angenrheidiol i bobl Cymru er mwyn iddynt allu reoli eu hamgylchiadau ariannol yn effeithiol. Wrth gyflwyno'r Bil, mae Bethan Jenkins AC hefyd wedi dweud y bydd y cynigion yn helpu i gynyddu ffyniant yng Nghymru drwy wella addysg ariannol a gallu ei dinasyddion.

13. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod cynigion y Bil yn perthyn i dri chategori bras:

- bydd y Bil yn gwella gallu ariannol ymhlith plant oedran ysgol a phobl ifanc (rhwng 7 ac 16 oed) drwy ei gwneud yn ofyniad cyfreithiol fod addysg ariannol yn cael ei chynnwys yn y cwricwlwm ysgol (adrannau 4 i 7 o'r Bil);
- bydd y Bil yn cryfhau swyddogaethau awdurdodau lleol wrth helpu pobl i osgoi mynd i drafferthion ariannol, drwy ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol (adrannau 8 i 10 o'r Bil); a

⁴ [Y Memorandwm Esboniadol, paragraffau 10 ac 11](#)

⁵ [Datganiad y Llywydd](#)

- bydd y Bil yn gosod dyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran darparu cyngor a threfnu cyngor ar reolaeth ariannol, yn gyffredinol ac yn benodol i blant 16 neu 17 oed sy'n derbyn gofal, plant a fu'n derbyn gofal yn flaenorol a myfyrwyr (adrannau 11 i 13 o'r Bil).

Yr angen am deddfwriaeth - addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol

14. Ar ddechrau ystyriaeth Cyfnod 1, roedd y Pwyllgor yn glir ynghylch ei farn ei fod yn cefnogi'r egwyddor sylfaenol o'r angen am addysg ariannol. Mae'r egwyddor hon wedi'i chefnogi gan bawb a roddodd dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw un o'r rheini a oedd yn rhoi tystiolaeth lafar o'r farn bod angen ei gwneud yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol.

15. I grynhoi, roedd y rhesymau a roddwyd gan y rheini a awgrymodd nad oedd angen deddfwriaeth yn cynnwys:

- caiff addysg ariannol ei darparu ar hyn o bryd yn y cwricwlwm, drwy ABCh a mathemateg, a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd;
- mae newidiadau diweddar a newidiadau sydd i ddod (y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a TGAU Mathemateg) yn darparu'n well ar gyfer addysg ariannol;
- ni fyddai deddfwriaeth yn sicrhau y byddai pobl ifanc yn alluog gydag arian; a
- gallai deddfwriaeth achub y blaen ar ganfyddiadau a chanlyniad Adolygiad Donaldson.

16. Yn gyffredinol, roedd y rheini a oedd yn rhoi tystiolaeth lafar yn cytuno er y gall y ddarpariaeth mewn ysgolion ledled Cymru fod yn anghyson, ni fyddai deddfwriaeth bellach o reidrwydd yn gwella'r cysondeb hwnnw. Dywedodd Estyn fod anghysondebau oherwydd y broses o ddarparu'r addysg ac nid sail statudol yr addysg ariannol. Adleisiwyd y safbwyntiau hyn gan Gymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon a awgrymodd y byddai'n well creu disgwyliad ymhlith consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol ac ysgolion bod yn rhaid iddynt ddarparu mwy yn y maes hwn na nodi bod angen gwneud mwy ar lefel benodol.

17. Roedd nifer o bobl eraill a oedd yn ymateb i'r ymgynghoriad ysgrifenedig o'r farn bod angen deddfwriaeth. Roedd y rhain yn cynnwys Comisiynydd Plant Cymru,⁶ awdurdodau lleol Conwy⁷ a Sir y Fflint,⁸

⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, y Comisiynydd Plant Cymru: [FEI 24](#)

⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: [FEI 15](#)

⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Sir y Fflint: [FEI 18](#)

Gweithredu dros Blant⁹ a NIACE Dysgu Cymru¹⁰ a Chymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig.¹¹

18. Awgrymodd y rheini a oedd yn cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth, o ystyried y pwysau o ran amser ar y cwricwlwm, bod angen sail ddeddfwriaethol ar gyfer addysg ariannol (yr Elusen Arian).¹² Dywedodd Undeb Cenedlaethol yr Athrawon¹³ y gallai deddfwriaeth sicrhau darlun mwy cydlynol o sut y dylid darparu addysg ariannol.

Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol

19. Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor,¹⁴ ymatebodd Bethan Jenkins i bryderon ynghylch yr angen am ddeddfwriaeth drwy ddweud y canlynol:

- mae'r Bil arfaethedig yn ategu ac yn cryfhau'r darpariaethau presennol;
- mae angen cynnwys addysg ariannol yn benodol mewn deddfwriaeth er mwyn sicrhau na chaiff ei cholli na'i gwanhau yn y dyfodol, a byddai unrhyw gynigion am newid yn destun gwaith craffu'r Cynulliad;
- bydd y Bil yn darparu ar gyfer rhoi trefniadau monitro ac adrodd ar waith er mwyn gwirio a chael cydbwysedd i sicrhau cysondeb y ddarpariaeth;
- gallai'r Bil arfaethedig gryfhau unrhyw argymhellion o Adolygiad Donaldson;
- mae darparwyr Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon wedi awgrymu nad ydynt wedi cael unrhyw ganllawiau o ran addysgu'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Safbwynt y Pwyllgor

20. Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan randdeiliaid yn y sector yn dangos dau safbwynt gwahanol o ran a oes angen deddfwriaeth ar gyfer addysg ariannol.

21. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod lefelau gwael iawn o ran llythrennedd ariannol yng Nghymru, a bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion y mae'r Bil yn ceisio ymdrin â hwy. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn

⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu dros Blant: [FEI 25](#)

¹⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Llais Cenedlaethol dros Ddysgu Gydol Oes – NIACE Cymru: [FEI 21](#)

¹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Undebau Credyd Prydain: [FEI 05](#)

¹² Tystiolaeth ysgrifenedig, yr Elusen Arian: [FEI 13](#)

¹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, NUT Cymru: [FEI 01](#)

¹⁴ Tystiolaeth llafar, 17 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#) a 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

cydnabod nad yw'r dystiolaeth gref a gafwyd yn awgrymu bod angen penodol am ddeddfwriaeth i wneud addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol.

22. Er gwaethaf cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, cyflwyno'r TGAU diwygiedig mewn mathemateg ac amseriad Adolygiad Donaldson, mae'r dystiolaeth hefyd yn cefnogi'r safbwynt bod y ddarpariaeth o addysg ariannol ledled Cymru yn anghyson. Felly, cred y Pwyllgor y dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sicrhau y caiff mesurau eu rhoi ar waith i wella addysg ariannol mewn ysgolion ac i wella cysondeb y ddarpariaeth.

Casgliad 1: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod lefelau gwael iawn o ran llythrennedd ariannol yng Nghymru, a bod angen cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r dystiolaeth gref a gafwyd yn awgrymu bod angen penodol am ddeddfwriaeth i wneud addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol.

Argymhelliad 1: Dylai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau sicrhau y caiff mesurau eu rhoi ar waith i wella addysg ariannol mewn ysgolion ac i wella cysondeb y ddarpariaeth.

Yr angen am ddeddfwriaeth - strategaethau cynhwysiant ariannol

23. Clywodd y Pwyllgor amrywiaeth o safbwyntiau ar yr angen i wneud strategaethau cynhwysiant ariannol yn ofyniad statudol. Er nad oedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth lafar yn cefnogi'r cynnig hwn, roedd amrywiaeth barn yn y dystiolaeth ysgrifenedig.

24. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ei gwneud yn glir y gellid bodloni'r gofyniad yn Adran 8 o'r Bil i lunio strategaeth drwy gynllun strategol ehangach, os oedd wedi'i gynnwys yn y canllawiau gan Weinidogion Cymru. Roedd llawer o'r tystion, y rheini a oedd yn gwrthwynebu a'r rhai a oedd yn cefnogi'r rhan hon o'r Bil, yn cytuno â hyn ac yn ystyried bod 'Cynlluniau Integredig Sengl' yn un ffordd o ystyried cynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol, ac mewn cyd-destun lleol, yn hytrach na thrwy strategaeth ar wahân.

25. Ar ôl ystyried hyn, edrychodd y Pwyllgor ar y dulliau gweithredu sydd eisoes ar waith. Caiff strategaethau cymunedol eu hadlewyrchu yng Nghynllun Integredig Sengl ardal, a gellir defnyddio'r rhain er mwyn helpu i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol.

26. Caiff strategaethau cymunedol eu diddymu gan y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u disodli gan gynlluniau llesiant lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at gynhwysiant ariannol yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol na'r Memorandwm Esboniadol.

27. Roedd nifer o'r tystion, fel Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig¹⁵ a Thai Cymunedol Cymru,¹⁶ yn cefnogi'r syniad o gael strategaeth benodol i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol, a gallai'r Archwilydd Cyffredinol¹⁷ "weld yr achos dros ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadu strategaeth cynhwysiant ariannol sy'n nodi sut y byddant yn defnyddio eu pwerau."

28. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth ychydig yn unig o awdurdodau lleol sydd â chynhwysiant ariannol ar hyn o bryd, er bod strategaeth genedlaethol gan Lywodraeth Cymru nad yw wedi'i diweddarau ers peth amser. Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar ynghylch y ffaith bod awdurdodau lleol eisoes yn gwneud amrywiaeth o waith mewn perthynas â

¹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cymdeithas Undebau Credyd Prydain: [FEI 05](#)

¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru: [FEI 14](#)

¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilydd Cyffredinol Cymru: [FEI 17](#)

materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol, er yr ymddengys fod y math o waith a wneir yn amrywio'n fawr o ardal i ardal.

29. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig,¹⁸ dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi y gall awdurdodau lleol ddefnyddio eu pwerau presennol i lunio strategaeth cynhwysiant ariannol ac y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol yn y cyd-destun hwnnw, er nad oedd yn bwriadu gwneud hynny.

30. I grynhoi, roedd y dystiolaeth a gafwyd gan y tystion ynghylch peidio â chefnogi'r angen i wneud strategaethau cynhwysiant ariannol yn ofyniad statudol yn cynnwys y canlynol:

- mae awdurdodau lleol eisoes yn gwneud llawer o waith yn y maes hwn;
- gellid defnyddio pwerau presennol a chynllunio strategol i sicrhau yr un canlyniadau; a
- byddai deddfwriaeth newydd yn creu beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol ar adeg pan fo cyllidebau eisoes o dan lawer o bwysau.

Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol

31. Yn ei hymddangosiad olaf gerbron y Pwyllgor,¹⁹ gwnaeth Bethan Jenkins nifer o sylwadau ynghylch y gofyniad yn y Bil am strategaethau cynhwysiant ariannol, gan gynnwys:

- dylid bod dyletswydd yn y gyfraith i awdurdodau lleol fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol, ond nid yw'r Bil yn rhagnodol ynghylch ei wneud yn strategaeth ar wahân;
- gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ac yna roi dyletswyddau i awdurdodau lleol drwy'r Cynllun Integredig Sengl, fel y mae'n ei wneud ar hyn o bryd gyda'r Cynlluniau Cymunedol, a'u gwneud yn rhan o strategaeth ehangach;
- byddai strategaeth annibynnol yn sicrhau'r ffocws sydd ei angen ar y mater.

¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: [FEI 12](#)

¹⁹ Tystiolaeth llafar, 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

Safbwynt y Pwyllgor

32. Roedd y dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor gan randdeiliaid yn y sector unwaith eto yn dangos dau safbwynt gwahanol o ran a oes angen deddfwriaeth sy'n ymwneud â strategaethau cynhwysiant ariannol.

33. Mae'r Pwyllgor yn derbyn, fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, y gellid bodloni'r gofyniad yn Adran 8 o'r Bil i lunio strategaeth drwy gynllun strategol ehangach, pe byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch hyn mewn canllawiau. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod llawer o'r tystion yn cytuno â hyn.

34. Roedd y Pwyllgor yn pryderu ynghylch y ffaith mai ychydig o awdurdodau lleol sydd â strategaeth cynhwysiant ariannol ar hyn o bryd, ac er bod strategaeth genedlaethol, nid yw wedi'i diweddarau ers peth amser. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu yr ymddengys fod y gwaith a wneir gan awdurdodau lleol mewn perthynas â materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol yn amrywio'n fawr o ardal i ardal.

35. Croesawodd y Pwyllgor dystiolaeth y Gweinidog y gall awdurdodau lleol ar hyn o bryd ddefnyddio eu pwerau presennol i lunio strategaeth cynhwysiant ariannol ac y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol yn y cyddestun hwnnw. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn siomedig nad oedd y Gweinidog yn bwriadu gwneud hyn, a chred, os na ddaw'r Bil i rym, y dylai'r Gweinidog gyflwyno canllawiau o'r fath.

36. Er ei bod yn amlwg bod dulliau ar waith sy'n caniatáu i awdurdodau lleol fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynhwysiant ariannol, drwy strategaethau lleol a chenedlaethol, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y gwaith o fewn awdurdodau lleol ar y mater hwn yn amrywio'n fawr. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod nad yw'r dystiolaeth gref a gafodd yn awgrymu bod angen penodol am ddeddfwriaeth ar hyn o bryd i wneud strategaethau cynhwysiant ariannol yn ofyniad statudol.

Casgliad 2: Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y dystiolaeth gref a gafodd yn awgrymu nad oes angen penodol am ddeddfwriaeth ar hyn o bryd i wneud strategaethau cynhwysiant ariannol yn ofyniad statudol.

Yr angen am ddeddfwriaeth - cyngor ar reoli arian

Gwybodaeth am ffynonellau cyngor

37. Mae'r Pwyllgor wedi clywed y pryderon a ganlyn mewn tystiolaeth ynghylch y wybodaeth am ffynonellau cyngor:

- mae angen bod yn ofalus ynghylch y mathau o sefydliadau y byddai pobl yn cael eu cyfeirio atynt ac mae angen sicrhau bod y cyngor hwnnw yn ddiuedd;
- gall fod problemau gyda darparu gwybodaeth gyfredol o ansawdd;
- gan fod cyngor ariannol yn faes a reoleiddir yn gaeth, byddai materion o ran awdurdodau lleol yn rhoi eu cyngor eu hunain;
- ai sefydlu 22 o ddarparwyr annibynnol fyddai'r peth cywir i'w wneud; ac
- mae amheuan ynghylch a fyddai rhestr o'r adnoddau eraill sydd ar gael ar wefan yr awdurdod lleol yn cael yr effaith a ddymunir ar wella cynhwysiant ariannol mewn ardal.

38. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, mynegodd yr Archwilydd Cyffredinol²⁰ hefyd bryderon ynghylch argaeledd gwasanaethau cynghori arbenigol yn y sefyllfa economaidd bresennol a fydd yn "tanseilio'r gwaith o'u darparu".

39. Dywedodd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi²¹ bod cyngor eisoes ar gael ar reoli arian, ac y byddai'n cael ei danategu gan y Fframwaith newydd o Safonau ar gyfer Cyngor a Gwybodaeth.

Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol

40. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig, nododd Bethan Jenkins y pwyntiau a ganlyn:

- hyrwyddo dealltwriaeth mae'r Bil yn ei wneud yn hytrach na hyrwyddo cynhyrchion ariannol penodol;
- gallai awdurdod lleol ryddhau ei ddyletswydd drwy gyfeirio pobl at wasanaethau cynghori sydd eisoes yn bodoli, ac mae hi hefyd yn cefnogi diwygio'r Bil ar ôl Cyfnod 2 er mwyn ei gwneud yn ofynnol bod awdurdodau lleol yn gwneud mwy na chyflwyno gwybodaeth ar eu

²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: [FEI 17](#)

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Archwilydd Cyffredinol Cymru: [FEI 12](#)

gwefannau, er enghraifft drwy gymwysiadau symudol a chyfryngau digidol eraill;

- byddai angen i awdurdodau lleol sy'n rhoi cyngor eu hunain lynu wrth y safonau rheoleiddio presennol. Ni fyddai'n rhaid i awdurdodau arfer y pŵer hwn.

Safbwynt y Pwyllgor

41. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch yr anawsterau posibl o ran awdurdodau lleol yn rhoi cyngor, fel y nodir ym mharagraff 37. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod y dystiolaeth a roddwyd fod llawer o ffynonellau cyngor ar reoli arian ar gael yn barod, ac mae rhai eisoes wedi'u cefnogi gan Lywodraeth Cymru.

Casgliad 3: O ystyried y ffaith bod llawer o ffynonellau cyngor ar reoli arian ar gael yn barod, y mae rhai ohonynt yn cael eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru, cred y Pwyllgor nad yw Adran 12 o'r Bil yn angenrheidiol.

Cyngor i fyfyrwyr

42. Mae'r darpariaethau yn y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod prifysgolion a chorfforaethau addysg bellach yn rhoi cyngor ar reoli arian i fyfyrwyr.

43. Mae'r Pwyllgor wedi clywed mewn tystiolaeth lafar nad oes gan awdurdodau lleol gydberthynas uniongyrchol â sefydliadau o'r fath, a bod diben y ddarpariaeth yn aneglur. Hefyd, nid yw'n glir a fyddai darpariaethau'r Bil yn cael effaith ar annibyniaeth sefydliadau.

44. Yn ei ymateb i'r ymgynghoriad, dywedodd ColegauCymru²² fod y darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg bellach yn amhriodol gan nad oes gan awdurdodau lleol awdurdodaeth dros golegau addysg bellach.

45. Dywedodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau²³ na fyddai'n barod i ystyried darparu cyngor i fyfyrwyr gan y byddai'n costio gormod.

²² Tystiolaeth ysgrifenedig, ColegauCymru: [FEI 22](#)

²³ Tystiolaeth llafar, 1 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

Tystiolaeth yr Aelod Cyfrifol

46. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig,²⁴ dywedodd Bethan Jenkins mai dim ond camau rhesymol y byddai disgwyl i awdurdodau lleol eu cymryd. Yn ei thystiolaeth lafar dywedodd²⁵ Bethan Jenkins:

- cafodd myfyrwyr eu cynnwys yn benodol gan ei bod am sicrhau y darperir ar gyfer pob person ifanc;
- mae baich gwaith undebau myfyrwyr a swyddogion llesiant yn rhy drwm;
- pe byddai myfyrwyr yn cysylltu ag awdurdod lleol, dylent allu cael cyngor;
- roedd cynnwys y ddyletswydd i gymryd 'camau rhesymol' yn ymgais i beidio â bod yn rhy ragnodol; ac
- mae wedi dechrau cysylltu â'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr mewn perthynas â darparu cyngor i fyfyrwyr.

47. Dywedodd Bethan Jenkins hefyd y byddai'n ystyried y posibilrwydd y gellid cynnwys cyngor i fyfyrwyr fel rhan o strategaeth cynhwysiant ariannol awdurdod lleol.

Safbwynt y Pwyllgor

48. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a roddwyd nad oes cydberthynas rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach. Oherwydd hynny, cred y Pwyllgor fod y darpariaethau yn adran 13 o'r Bil yn amhriodol ac na ddylid eu cefnogi.

Casgliad 4: O ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd nad oes cydberthynas rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach, cred y Pwyllgor na ddylid cefnogi'r darpariaethau yn adran 13 o'r Bil.

²⁴ [CYPE\(4\)-24-14 - Papur 1](#)

²⁵ Tystiolaeth llafar, 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

Darpariaethau penodol yn y Bil

49. Mae llawer o'r dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor yn awgrymu nad oes angen y ddeddfwriaeth hon (yn enwedig mewn perthynas ag elfennau addysg y Bil). Fodd bynnag, os aiff y Bil i Gyfnod 2, cred y Pwyllgor fod angen meddwl yn galed ynghylch y darpariaethau penodol yn y Bil.

Addysg ariannol fel rhan o'r cwricwlwm sylfaenol

50. Y bwriad yn y Bil yw y dylai addysg ariannol fod yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol (fel ABCh), gyda fframwaith anstatudol, ac nid yn bwnc annibynnol. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Nid yw hyn yn golygu y byddai'n rhaid ei chyflwyno ar ei phen ei hun neu hyd yn oed fel pwnc ar wahân. Yn wir, mae'r Bil hwn yn rhagweld y byddai'n cael ei chyflwyno drwy feysydd sydd eisoes yn rhan o'r cwricwlwm ysgol megis mathemateg a'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd, a newidiadau sydd ar y gweill megis y TGAU rhifedd mathemateg.

51. Nododd cyhoeddiad y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd, *PISA 2012 Results in Focus (2014)*²⁶ o ran cynnwys llythrennedd ariannol yn y cwricwlwm neu ei gael fel pwnc annibynnol:

“PISA 2012 financial literacy assessment cannot provide conclusive evidence on which of these strategies, or what combination of them, yields superior outcomes in financial literacy.”

52. Mewn tystiolaeth, dywedodd y Pwyllgor, Cyngor ar Bopeth Cymru²⁷ a'r Prif Weithredwr Addysg a Hyfforddiant²⁸ y dylai addysg ariannol fod yn bwnc traws-gwricwlaidd, yn hytrach na phwnc annibynnol. Dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau²⁹ os bydd yn bwnc traws-gwricwlaidd, y bydd mwy o gyfleoedd i atgyfnerthu addysg.

53. Yn ei thystiolaeth lafar,³⁰ dywedodd Bethan Jenkins ei bod am gynnwys addysg ariannol fel pwnc traws-gwricwlaidd er mwyn sicrhau hyblygrwydd ac osgoi rhoi pwysau ar y cwricwlwm.

²⁶ [PISA 2012 Results in Focus \(2014\)](#)

²⁷ Tystiolaeth llafar, 1 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

²⁸ *Ibid*

²⁹ Tystiolaeth llafar, 25 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³⁰ Tystiolaeth llafar, 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

Safbwynt y Pwyllgor

54. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bwriad Bethan Jenkins y byddai am gynnwys addysg ariannol fel pwnc traws-gwricwlaidd. Cred y Pwyllgor mai dyma fyddai'r ffordd orau, a byddai'n sicrhau'r hyblygrwydd angenrheidiol er mwyn gallu darparu addysg ariannol.

Argymhelliad 2: Dylai'r Gweinidog sicrhau bod addysg ariannol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol ar y cyd ag addysg draws-gwricwlaidd ac nid fel pwnc annibynnol.

Cyfnod Allweddol 2

55. Mae'r Bil fel y'i drafftiiwyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer addysg ariannol i bob disgybl cofrestredig yn ystod Cyfnodau Allweddol 2, 3 a 4. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, cytunodd Cymdeithas Undebau Credyd Prydain,³¹ y Gwasanaeth Cyngori Ariannol,³² Cyngor ar Bopeth Cymru,³³ Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru,³⁴ Estyn³⁵ a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau³⁶ y dylai addysg ariannol ddechrau cyn Cyfnod Allweddol 2. Awgrymodd y Gwasanaeth Cyngori Ariannol mewn tystiolaeth lafar:³⁷

“...the Bill was deficient in this respect as attitudes towards money are formed by the age of seven.”

56. Yn ei sesiwn dystiolaeth lafar gyntaf i'r Pwyllgor,³⁸ eglurodd Bethan Jenkins, wrth iddi gasglu tystiolaeth, nad oedd consensws clir wedi bod ynghylch yr oedran y dylai addysg ariannol ddechrau a bod plant o dan 7 oed eisoes yn cael rhywfaint o addysg ariannol drwy'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

57. Yn ei hail sesiwn dystiolaeth lafar,³⁹ dywedodd Bethan Jenkins fod y penderfyniad i gynnwys addysg ariannol o Gyfnod Allweddol 2 ymlaen wedi'i wneud ar sail y dystiolaeth yr oedd wedi'i chael drwy arolwg o bobl ifanc. Er ei bod yn cytuno y gallai darpariaethau fod yn berthnasol i blant yn gynharach, dywedodd Bethan Jenkins y gallai fod cost ychwanegol yn gysylltiedig â hyn.

³¹ Tystiolaeth llafar, 25 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³² Tystiolaeth llafar, 1 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³³ *Ibid*

³⁴ Tystiolaeth llafar, 17 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³⁵ Tystiolaeth llafar, 1 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³⁶ *Ibid*

³⁷ *Ibid*

³⁸ Tystiolaeth llafar, 17 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

³⁹ Tystiolaeth llafar, 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

Safbwynt y Pwyllgor

58. Ar sail y dystiolaeth a gafwyd, cred y Pwyllgor y dylai darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg ariannol ddechrau ar gyfer disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen, ac y dylid diwygio'r Bil i ymestyn y ddarpariaeth i'r cyfnod cynharach hwn.

Argymhelliad 3: Dylid diwygio'r Bil i sicrhau bod darpariaethau sy'n ymwneud ag addysg ariannol yn dechrau ar gyfer disgyblion o'r Cyfnod Sylfaen ymlaen.

Adroddiadau

59. Yn ei thystiolaeth lafar i'r Pwyllgor,⁴⁰ dywedodd Bethan Jenkins fod angen gallu monitro cynnydd wrth ddarparu addysg ariannol ac mai cynnwys hynny mewn deddfwriaeth yw'r ffordd orau o sicrhau hyn. Mae'r Bil fel y'i drafftiwyd ar hyn o bryd yn gofyn i Weinidogion Cymru baratoi adroddiad blynyddol ar gyfer hyn.

60. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig,⁴¹ roedd Bethan Jenkins o'r farn nad oedd y prosesau presennol a nodwyd gan y Gweinidog yn ddigonol, ac y byddai gofyniad penodol i adrodd ar addysg ariannol yn fesur diogelu ychwanegol. Fodd bynnag, awgrymodd y gallai adrodd yn llai aml fod yn fwy ymarferol a buddiol o ran dadansoddi tueddiadau ac y gellid gwneud hyn yn effeithiol bob tair blynedd.

61. Roedd dystiolaeth arall a gafodd y Pwyllgor yn awgrymu'r canlynol:

- bod trefniadau monitro'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd eisoes ar waith drwy adroddiadau blynyddol ysgolion i rieni, drwy'r TGAU Mathemateg - Rhifedd a gaiff ei gyflwyno maes o law a thrwy adroddiad blynyddol Estyn ar addysg a hyfforddiant;
- roedd yn ddadleuol a fyddai adroddiad blynyddol yn dangos cynnydd sylweddol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol; a
- dylid rhoi mwy o bwyslais ar fonitro ymddygiadau a sgiliau.

⁴⁰ Tystiolaeth llafar, 17 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁴¹ [CYPE\(4\)-24-14 - Papur 1](#)

62. Yn ei hail sesiwn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor,⁴² ymatebodd Bethan Jenkins i'r pwyntiau penodol a godwyd, gan gadarnhau'r canlynol:

- byddai'n fodlon diwygio'r darpariaethau adrodd yn y Bil o ystyried tystiolaeth Estyn y byddai'n anodd olrhain cynnydd dros gyfnod o flwyddyn;
- er gwaethaf awgrym y Gweinidog Addysg a Sgiliau bod trefniadau ar gyfer adrodd ar waith, nid oedd addysg ariannol wedi'i chrybwyll yn adroddiad blynyddol diweddaraf Estyn, nac yng nghanllawiau arolygu Estyn; a
- nid oedd, fodd bynnag, am fod yn rhagnodol ynghylch cynnwys yr adroddiad mewn perthynas â monitro ymddygiadau neu sgiliau.

Safbwynt y Pwyllgor

63. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r egwyddor gyffredinol yn y Bil o ran gwneud y trefniadau adrodd yn ofynnol. Fodd bynnag, cred y Pwyllgor y dylai trefniadau o'r fath fod yn llai aml na'r cylch adrodd blynyddol a gynigir ar hyn o bryd yn y Bil.

64. Cred y Pwyllgor hefyd y dylai'r darpariaethau adrodd yn y Bil fod yn fwy rhagnodol a bod canlyniadau, fel monitro ymddygiadau a sgiliau, yn gorfod cael eu mesur.

Argymhelliad 4: Dylai'r trefniadau adrodd fod yn llai aml na'r cylch adrodd blynyddol a gynigir ar hyn o bryd yn y Bil.

Argymhelliad 5: Dylai'r darpariaethau adrodd yn y Bil fod yn fwy rhagnodol a dylai canlyniadau, fel monitro ymddygiadau a sgiliau, gael eu mesur.

Plant sy'n Derbyn Gofal

65. Fel y'i drafftwyd, mae'r Bil yn cynnwys dwy ddarpariaeth sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, sef:

- ei bod yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal yn cael addysg ariannol briodol; a
- bod yn rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod plant sy'n derbyn gofal categori 1, 2 neu 3 yn cael cyngor ar wasanaethau ariannol a rheoli arian.

⁴² Tystiolaeth llafar, 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

66. Clywodd y Pwyllgor mewn tystiolaeth lafar gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru,⁴³ Canolfan Cydweithredol Cymru,⁴⁴ y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi⁴⁵ ac Estyn,⁴⁶ gan fod y mwyafrif o blant sy'n derbyn gofal mewn addysg prif ffrwd, na fyddai deddfwriaeth yn newid y ddarpariaeth y maent eisoes yn ei chael.

67. Awgrymodd Cyngor ar Bopeth Cymru⁴⁷ er bod plant sy'n derbyn gofal a phobl sydd wedi gadael gofal yn aml dan anfantais benodol, fod darpariaeth anghyson o addysg ariannol gan awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol.

68. Dywedodd Gweithredu dros Blant⁴⁸ fod y Bil yn cynnig cyfle i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hynny sydd fwyaf agored i niwed wedi paratoi'n well, ac yn gynharach, ar gyfer eu dyfodol. Roedd Comisiynydd Plant Cymru⁴⁹ hefyd yn croesawu'r darpariaethau hyn.

69. Ychydig iawn o dystiolaeth ysgrifenedig a gafodd y Pwyllgor mewn perthynas â'r darpariaethau sy'n ymwneud â'r cyngor i blant sy'n derbyn gofal. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, roedd y Comisiynydd Plant⁵⁰ yn cefnogi'r darpariaethau, ond nid oedd awdurdodau lleol Wrecsam⁵¹ a Chonwy⁵² yn eu cefnogi, gan ddweud bod arfer da yn galluogi rhoi cyngor o'r fath i blant sy'n derbyn gofal ac y gall fod yn broblem rhoi cyngor i'r rheini sy'n gadael gofal. Dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol⁵³ fod darpariaethau eisoes ar gael i'r rheini sy'n derbyn gofal neu sy'n gadael gofal.

70. Mae'r Pwyllgor wedi cael tystiolaeth lafar a thystiolaeth ysgrifenedig bod darpariaethau deddfwriaethol ar gael, gan gynnwys drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ddarparu addysg ariannol i blant sy'n derbyn gofal a'r rheini sy'n gadael gofal.

⁴³ Tystiolaeth llafar, 17 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁴⁴ *Ibid*

⁴⁵ Tystiolaeth llafar, 1 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁴⁶ *Ibid*

⁴⁷ *Ibid*

⁴⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, Gweithredu dros Blant: [FEI 25](#)

⁴⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Comisiynydd Plant Cymru: [FEI 24](#)

⁵⁰ *Ibid*

⁵¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam: [FEI 23](#)

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: [FEI 15](#)

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gweinidog Addysg a Sgiliau: [FEI 11](#)

71. Yn ei thystiolaeth lafar⁵⁴ a'i thystiolaeth ysgrifenedig,⁵⁵ mae Bethan Jenkins yn cydnabod hyn ond yn nodi y byddai'r Bil yn gweithredu fel mesur diogelu ychwanegol ar gyfer grwpiau o bobl sy'n agored i niwed.

Safbwynt y Pwyllgor

72. Mae'r Pwyllgor yn cefnogi'n gryf yr egwyddor o roi cyngor ac addysg ariannol i blant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r dystiolaeth a gafwyd, gan fod y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu mewn ysgol prif ffrwd, na fyddai deddfwriaeth o'r fath yn newid y ddarpariaeth y maent eisoes yn ei chael.

73. Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod y dystiolaeth yn awgrymu bod darpariaeth anghyson o addysg ariannol gan awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol, a chred y dylai Panelau Rhianta Corfforaethol gydnabod y rôl y mae'n rhaid iddynt ei chwarae yn hyrwyddo addysg ariannol i blant sy'n derbyn gofal.

74. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cytuno bod pwerau deddfwriaethol cyfredol, gan gynnwys drwy'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ar gael i ddarparu addysg ariannol i'r rhai sy'n gadael gofal. Er inni gydnabod y gall y Bil ddarparu mesur diogelu ychwanegol, cred y Pwyllgor fod hyn yn ddiangen o ystyried y dyletswyddau sydd eisoes ar awdurdodau lleol drwy fathau eraill o deddfwriaeth.

Casgliad 5: O ystyried y dystiolaeth a gafwyd fod y rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu haddysgu mewn ysgolion prif ffrwd a bod pwerau deddfu cyfredol i ddarparu addysg ariannol i'r rhai sy'n gadael gofal, nid yw'r Pwyllgor wedi'i ddarbwylo bod angen y darpariaethau yn y Bil.

Strategaethau cynhwysiant ariannol

75. Fel y'i drafftwyd, mae'r Bil yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol i baratoi a chyhoeddi strategaeth cynhwysiant ariannol, ac yn nodi beth y mae'n rhaid i strategaeth o'r fath ei chynnwys.

76. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y cwestiwn ehangach ynghylch a oes angen deddfwriaeth sy'n ymwneud â strategaethau cynhwysiant ariannol. Caiff casgliadau'r Pwyllgor eu nodi ym mharagraffau 23 i 26 o'r adroddiad hwn.

⁵⁴ Tystiolaeth llafar, 9 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁵⁵ [CYPE\(4\)-24-14 - Papur 1](#)

Fodd bynnag, codwyd materion penodol yn ystod Cyfnod 1, y bydd angen eu hystyried os aiff y Bil yn ei flaen.

77. Mewn tystiolaeth lafar, clywodd y Pwyllgor y canlynol:

- mae fframweithiau eisoes ar gael i awdurdodau lleol fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol yn lleol, er enghraifft drwy Gynlluniau Integredig Sengl;
- mae angen i awdurdod lleol cyfan ystyried cynhwysiant ariannol ac mae perygl y byddai deddfwriaeth yn ei gwneud yn gyfrifoldeb ar un person yn hytrach nac awdurdod cyfan - mae angen i gynhwysiant ariannol fod yn fater trawsbynciol; ac
- roedd Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig⁵⁶ yn awgrymu os caiff cynhwysiant ariannol ei flaenoriaethu gan awdurdodau lleol, y byddai hyn yn helpu gyda chysondeb y ddarpariaeth.

78. Nid oedd y Gwasanaeth Cynghori Ariannol⁵⁷ yn cefnogi'r angen am strategaethau cynhwysiant ariannol gan fod cymaint o newidiadau ar ddigwydd a chymaint o wahanol fathau o waith, gan gynnwys Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) a'r Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru).

79. Mewn tystiolaeth lafar, nid oedd y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi⁵⁸ yn cefnogi'r angen am ddeddfwriaeth, a dywedodd y byddai'n arwain at feichiau a biwrocratiaeth ychwanegol. Er iddi gytuno bod anghysondebau ledled Cymru, roedd datblygu Fframwaith o Safonau ar gyfer Cyngor a Gwybodaeth yn un o'i blaenoriaethau. Awgrymodd y Gweinidog hefyd y byddai'n fwy effeithiol ystyried gweithio mewn partneriaeth.

80. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig,⁵⁹ dywedodd y Gweinidog y gall awdurdodau lleol ar hyn o bryd ddefnyddio eu pwerau presennol i lunio strategaeth cynhwysiant ariannol ac y gallai Llywodraeth Cymru gyflwyno canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol sy'n mynd i'r afael â chynhwysiant ariannol yn y cyd-destun hwnnw, er nad oedd yn bwriadu gwneud hynny.

⁵⁶ Tystiolaeth llafar, 25 Medi 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁵⁷ Tystiolaeth llafar, 1 Hydref 2014, [Cofnod y Trafodion](#)

⁵⁸ *Ibid*

⁵⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: [FEI 12](#)

81. Yn ei thystiolaeth ysgrifenedig,⁶⁰ nododd Bethan Jenkins y pwyntiau a ganlyn:

- er, mewn gwirionedd, y gellir cael deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol fabwysiadu eu strategaethau cynhwysiant ariannol eu hunain, o ystyried yr anghysondebau rhwng awdurdodau lleol, mae angen cryfhau'r fframwaith;
- bydd deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol ganolbwyntio ar gynhwysiant ariannol mewn ffordd fwy strategol;
- byddai'n gobeithio y byddai awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â materion mewn ffordd drawsbynciol a disgwylir i hyn gael ei bwysleisio yn y canllawiau;
- gallai'r Gweinidogion gyhoeddi canllawiau statudol ar gyfer strategaeth cynhwysiant ariannol awdurdod lleol, yn debyg i'r canllawiau sy'n galluogi awdurdodau lleol i gyfuno strategaethau a chynlluniau o fewn cynlluniau integredig sengl;
- byddai dyletswydd trosfwaol gyffredinol sy'n cysylltu cynhwysiant ariannol â phrosesau cynllunio strategol ehangach yn rhy amhendant ac amwys i sicrhau nodau polisi'r Bil.

82. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad, mae'r Pwyllgor wedi ystyried y dulliau sydd eisoes ar waith ar gyfer strategaethau cynhwysiant ariannol. Caiff strategaethau cymunedol eu hadlewyrchu yng Nghynllun Integredig Sengl ardal, a gellir defnyddio'r rhain er mwyn helpu i fynd i'r afael â chynhwysiant ariannol.

83. Caiff strategaethau cymunedol eu diddymu gan y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'u disodli gan gynlluniau llesiant lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at gynhwysiant ariannol yn y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) na'r Memorandwm Esboniadol.

Safbwynt y Pwyllgor

84. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y dystiolaeth a gafwyd yn awgrymu bod anghysondebau rhwng awdurdodau lleol o ran sut y caiff strategaethau cynhwysiant ariannol eu llunio a'u rheoli. Cred y Pwyllgor y dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau yn genedlaethol i hwyluso cynhwysiant ariannol, drwy ddiweddarau ei Strategaeth genedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Ariannol.

⁶⁰ [CYPE\(4\)-24-14 - Papur 1](#)

85. Cred y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio i fynd i'r afael â gwaith awdurdodau lleol o hyrwyddo cynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol.

Argymhelliad 6: Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau yn lleol i hwyluso cynhwysiant ariannol, drwy ddiweddarau ei Strategaeth genedlaethol ar gyfer Cynhwysiant Ariannol.

Argymhelliad 7: Cred y Pwyllgor hefyd y dylai Llywodraeth Cymru weithio i fynd i'r afael â gwaith awdurdodau lleol o hyrwyddo cynhwysiant ariannol mewn ffordd strategol.

Atodiad A - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn www.senedd.cynulliad.cymru/mgConsultationDisplay.aspx?id=142

Sefydliad	Cyfeirnod
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon Cymru	FEI 01
Canolfan Cydweithredol Cymru	FEI 02
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru	FEI 03
Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru	FEI 04
Cymdeithas Undebau Credyd Prydain	FEI 05
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru a Chymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru	FEI 06
Cyngor ar Bopeth Cymru	FEI 07
Estyn	FEI 08
Llais Cymunedol MAWR Conwy	FEI 09
Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol	FEI 10
Y Gweinidog Addysg a Sgiliau	FEI 11
Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi	FEI 12
Yr Elusen Arian	FEI 13
Grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru	FEI 14
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	FEI 15
Dinas a Sir Abertawe – Grŵp Llywio Cynhwysiant Ariannol Abertawe	FEI 16
Archwilydd Cyffredinol Cymru	FEI 17
Cyngor Sir y Fflint	FEI 18
Bwrdd Prosiect Cynhwysiant Ariannol Gyda'n Gilydd	FEI 19

Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru	FEI 20
Y Llais Cenedlaethol dros Ddysgu Gydol Oes - NIACE Cymru	FEI 21
ColegauCymru	FEI 22
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wreccsam	FEI 23
Comisiynydd Plant Cymru	FEI 24
Gweithredu dros Blant	FEI 25
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus	FEI 26
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	FEI 27
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru	FEI 28

Atodiad B - Tystion

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn

www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=9333

17 Medi 2014

Bethan Jenkins AC, yr Aelod sy'n gyfrifol

Eifion Evans, Cadeirydd, Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru

Pierre Bernhard-Grout, Swyddog Gweithredol, Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru

Jocelle Lovell, Rheolwr Prosiect, Canolfan Cydweithredol Cymru

Dave Brown, Cyfarwyddwr Strategaeth, Canolfan Cydweithredol Cymru

25 Medi 2014

Robin Hughes, Ysgrifennydd, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru

Dr Chris Howard, Cyfarwyddwr Dros Dro, Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru

Stephen Grey, Rheolwr Ymchwiliadau, Uned Benthycyca Arian Anghyfreithlon Cymru

Matt Bland, Rheolwr Polisi, Cymdeithas Undebau Credyd Prydain Cyfyngedig

Delyn Shearing, Rheolwr Undeb Credyd Merthyr Tudful

1 Hydref 2014

Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi

Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Lindsey Kearton, Swyddog Polisi, Cyngor ar Bopeth Cymru

Lee Phillips, Rheolwr Cymru, y Gwasanaeth Cyngori Ariannol

Ann Keane, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn

Meilyr Rowlands, Cyfarwyddwr Strategol

Catherine Evans, Arolygydd Ei Mawrhydi, Estyn

9 Hydref 2014

Bethan Jenkins AC, yr Aelod sy'n gyfrifol